SFHIPC8

Lleihau risg lledaenu haint wrth gludo a storio gwastraff sy’n gysylltiedig ag iechyd a gofal

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chludo gwastraff gofal iechyd, gan gynnwys offer miniog, o'r man storio naill ai ar y safle neu oddi ar y safle i fan dinistrio terfynol. Mae'r safon hon yn berthnasol i bob amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys lleoliadau cymunedol a chartref, a cherbydau/gorsafoedd ambiwlans.

Caiff gwastraff gofal iechyd ei gynhyrchu o ganlyniad i weithgareddau gofal iechyd ac mae'n cynnwys sylweddau peryglus posibl a allai achosi haint i unrhyw berson sy'n dod i gysylltiad â nhw. Dylech ddilyn y rheoliadau a'r polisïau cenedlaethol, gan gynnwys y disgrifiadau o fathau o wastraff, sy'n berthnasol i'ch gwlad chi.

Glanhau a diheintio yw'r termau a ddefnyddir yn y safon hon, fodd bynnag mewn rhai ardaloedd, defnyddir y term 'dihalogi'. Mae 'Dihalogi' yn derm ymbarél sy'n cynnwys glanhau, diheintio a sterileiddio fel y bo'n briodol.

Dylai'r safon gael ei defnyddio ochr yn ochr â deddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol.

Bydd angen i ddefnyddwyr y safon hon sicrhau bod ymarfer yn adlewyrchu gwybodaeth a pholisïau cyfredol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. delio'n brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau o fewn eich rheolaeth a rhoi gwybod am broblemau nad allant gael eu datrys
4. nodi a lleihau peryglon a risgiau yn y gweithle
5. defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol pan fyddwch yn trafod, yn cludo neu'n storio gwastraff gofal iechyd, yn unol â gofynion y sefydliad
6. sicrhau bod pob cynhwysydd gwastraff yn addas at ei ddiben ac yn cyd-fynd â deddfwriaeth bresennol
7. trafod pob cynhwysydd gwastraff yn ofalus i leihau risgiau torri neu rwygo
8. sicrhau bod cynwysyddion wedi'u selio'n ddiogel a bod y label, cofnod, cod lliw neu dag cywir arnynt ar gyfer categori a tharddiad y gwastraff ynddynt, gan ddefnyddio codau cydnabyddedig yn unol â gofynion y sefydliad
9. tynnu cynwysyddion o'r amgylchedd yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
10. gwneud yr ardal yn ddiogel a'i glanhau/diheintio ar unwaith yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad os bydd gollyngiad
11. cludo'r cynwysyddion i ardal ddynodedig yn unol â deddfwriaeth bresennol, heb eu hagor, gan osgoi cysylltiad ag arwynebau glân
12. rhannu gwastraff mewn storfa a storio'r holl gynwysyddion gwastraff fel eu bod yn sefyll
13. sicrhau bod unrhyw drolïau neu gerbydau a ddefnyddioch i gludo'r gwastraff yn cael eu glanhau, gyda neu heb ddiheintio, ar ôl eu defnyddio a gwirio eu bod yn gweithio'n iawn cyn eu hailddefnyddio; os nad ydynt, dylid eu cadw ar wahân a rhoi gwybod amdanynt
14. tynnu cyfarpar diogelu personol gan waredu unrhyw gyfarpar defnydd untro mewn cynhwysydd gwastraff priodol, glanhau neu ddiheintio unrhyw gyfarpar ailddefnyddiadwy yn barod i'w ailddefnyddio
15. cyflawni hylendid effeithiol y dwylo
16. sicrhau nad yw gwastraff yn cael ei adael lle y gall pobl anawdurdodedig neu blâu gael ato
17. rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau, helyntion neu ddamweiniau yn

ymwneud â storio a/neu gludo gwastraff gofal iechyd ar unwaith, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad

18. gwaredu gwastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
19. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r protocolau presennol sy'n berthnasol i'ch ymarfer yn y gwaith, ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
2. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun fel y bo'n berthnasol i'ch rôl
3. sut i gael at a dehongli'r holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
4. gweithdrefnau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sydd y tu hwnt i'ch cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
5. y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithred neu anwaith a allai fod yn anniogel/yn niweidiol i chi neu i eraill
6. y peryglon a'r risgiau a allai godi wrth i chi gyflawni eich rôl a sut y gallwch eu lleihau
7. y defnydd cywir o unrhyw gyfarpar a chyfarpar diogelu personol (PPE) i amddiffyn eich iechyd a'ch diogelwch chi a phobl eraill
8. rhagofalon atal a rheoli heintiau safonol, perthnasol, deddfwriaeth/canllawiau cenedlaethol a pholisïau/gweithdrefnau lleol
9. rheoliadau a chanllawiau ar sylweddau peryglus
10. y gadwyn heintio
11. hierarchaeth mesurau rheoli
12. camau allweddol hylendid y dwylo
13. sut gall dulliau mewn amgylcheddau clinigol a chymdeithasol amrywio
14. sut i gael at gyfleusterau ar gyfer hylendid y dwylo
15. technegau effeithiol ar gyfer cynnal hylendid y dwylo
16. sut i wisgo, tynnu a gwaredu cyfarpar diogelu personol yn ddiogel
17. sut i drafod a gwaredu offer miniog yn ddiogel
18. 
sut i drafod pob cynhwysydd gwastraff yn ofalus i leihau risgiau torri neu rwygo, gan gynnwys
19. 
sut i wahanu gwahanol fathau o wastraff yn ddiogel gan ddefnyddio'r bagiau a'r cynwysyddion gwastraff cod lliw sydd ar gael, a'r defnydd cywir o bob un ohonynt
20. sut i lanhau, gyda neu heb ddiheintio, yn dilyn gollyngiadau

21. egwyddorion storio gwastraff gofal iechyd yn ddiogel
22. sut a phryd i roi gwybod am unrhyw broblemau
23. sut i gael gwared ar wastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
24. sut i gwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad, a'i storio'n ddiogel

SFHIPC8

Lleihau risg lledaenu haint wrth gludo a storio gwastraff sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Health |
| **RCU gwreiddiol** | SFHICP8 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **Cyfres/Set** | Atal a rheoli heintiau |
| **Geiriau Allweddol** | Lleihau, risg, haint, cludo, storio, gwastraff |